



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Protocol 1 i Gytundeb yr AEE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	30 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Protocol 1 i Gytundeb yr AEE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio
Protocol 1 i Gytundeb yr AEE

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw'r OS hwn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â Phrotocol 1 i Gytundeb yr AEE, trefn a ddefnyddir i roi cyfraith yr UE ar waith ar gyfer, ac o fewn, gwladwriaethau Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop yr AEE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-protocol-1-to-the-eea-agreement-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.